

Cofnodion cyfarfod arbennig o Bwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 11 Chwefror, 2019 yn Ystafell Gwynant, Plas y Brenin, Capel Curig i drafod trefniadau ar gyfer Standin y Clwb yn yr Eisteddfod Gendlaethol

Presennol: Gwyn (GW) Dwynwen(DP), Iolo(ap Gwynn)(IAG), Dilys (DAP), Steve (SW), Eirwen (EW), Iolo (IPR),

Hefyd yn bresennol: Anet Thomas (AT), Maldwyn P Roberts (MPR)

Ymddiheuriadau: Raymond, Dewi, Eryl, Iona, Richard, Gareth

1. COSTAU/PARTNERIAID

Cyfanswm y gost oddeutu £3000, £1,500 o flaendal wedi ei dalu i'r Eisteddfod gan DAP. DAP wedi anfon anfonebau at y partneriaid. Partneriaeth Awyr Agored wedi talu £500, disgwyl y ceir £1000 gan CMPa £500 gan MTA.

DAP i anfon manylion am yr anfonebau i SW. SW i holi'r cyrff i weld beth yw'r sefyllfa.

Os na fydd arian wedi ei dderbyn erbyn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor cymerir nad ydynt am fod yn rhan o'r trefniadau

Ar ôl cael cadarnhad o pa gyrff fydd yn ymuno â'r Clwb yn y standin, SW i drefnu cyfarfod hefo'r partneriaid i drafod trefniadau. GW, DP a EO hefyd i gael gwahoddiad i'r cyfarfod.

2. CEFNOGAETH ARIANNOL ARALL

IAG yn adrodd nad yw'n bosib cael cymorth o Cronfa CAE Awdurdod y Parc mewn pryd.

GW i holi i os yn bosib cael cymorth o Gronfa Degwm Conwy

IPR i holi os yn bosib cael cymorth o Gronfa Cist Gwynedd

IAG i holi os yn bosib cael cymorth gan Gyngor Chwaraeon Cymru

EO i holi'r Urdd

3. PARATOI'R UNED

GW i drefnu criw o aelodau lleol i helpu i osod y standin

GW trefnu cyflenwad o fyrddau, seddau ac ati yn lleol

MPR i wneud ymholiadau i geisio sefydlu lle mae'r tri panel "popup"

IAG i anfon e-bost i GW hefo manylion beth fydd angen ar gyfer creu paneli arddangos.

GW i gysylltu hefo Gareth Wyn Griffiths i drafod os y gellir eu hadeiladu ar gyfer y standin

EO i anfon e-bost i'r holl aelodau i holi am unrhyw wybodaeth ynglŷn â lleoliad baneri, paneli a cheiriau eraill sy'n eiddo'r Clwb y gellir eu defnyddio yn y standin

DP i edrych i fewn i brisiau cael baneri newydd

GW i holi Currys Llandudno a fyddai'n bosib cael menthyg teledu mawr ar gyfer arddangos lluniau

GW i drefnu cyflewnad o daflenni/pamffledi addas a ffurflenni ymaelodi'r Clwb ar gyfer y standin

GW trefnu bod cyflenwad o "Gopaon Cymru" ar gael i'w gwerthu

GW trefnu cyflenwad o ddŵr yn ystod yr wythnos

GW a DAP i drefnu yswiriant priodol os y ceir menthyg teledu am yr wythnos

4. LLUNIAU

AT, MPR , IAG a DP i ddod at ei gilydd i ddethol lluniau a fydd yn olrhain hanes y clwb dros y 40 blynedd

5. GWEITHGAREDDAU

Cystadleuaeth adnabod lluniau o fynyddoedd – DP i drefnu

EW i feddwl am gystadleuaeth addas ar gyfer plant

Yn y cyfarfod trafod hefo partneriad eraill y posibilrwydd o gael gweithgareddau ar y cyd yn y stondin

EW i holi Siop Crib Goch a Joe Brown am nwyddau fel gwobrwyon

Darlith Goffa Llew Gwent gan Huw Brassington – 6pm nos Wener, 9 Awst ym Mabell y

Cymdeithasau – DP yn trefnu

Hefyd DP wedi gofyn i Huw os yn bosib cynnal sesiwn holi anffurfiol yn gynharach yn y prynhawn yn y stondin

Sesiwn yn y Babell Lân - 2.30 - 3.30 dydd Llun, 5 Awst.

Gerallt yn cadeirio ac Eric Jones, Gwen Aaron a Dei Tomos ar y panel

GP i gyfarfod y 3 ymlaen llaw i drafod cynnwys y sgwrs

Digwyddiad swyddogol yn y stondin i ddathlu'r penblwydd 3.30 – 4.30, dydd Llun, 5 Awst

DP trefnu gwin – 24 potel – 12 coch/12 gwyn a gwydrau plastig

GW i holi Bragdy Lleol ynglŷn â darparu cwrw

GW i ofyn i IE baratoi cacen

EO i drefnu taith arferol y Clwb yn ystod yr wythnos

DP yn trefnu taith o Gaernarfon i Lanrwst dydd Sadwrn 3 Awst

DP yn gweithio ar y trefniadau ymarferol e.e. llwybr y daith ac amseroedd a chadarnhau'r manylion hefo GW

6. STIWARDIO'R UNED

GW/EO/IE hefo ymrwymadau sylweddol yn ystod yr wythnos ac felly ddim yn mynd i fod ar gael i stiwardio

IPR i anfon nodyn at holl aelodau'r Pwyllgor yn gofyn a fyddent yn fodlon gwirfoddoli i fod yn gyfrifol am y stondin am o leiaf un diwrnod

EO i gylchredeg nodyn i holl aelodau'r Clwb yn gofyn am wirfoddolwyr i helpu yn ddyddiol ar y stondin

GW i gadarnhau faint o docynnau fydd ar gael ar gyfer aelodau i staffio'r stondin ar ôl dosbarthu rhai i'r partneriad